S4/C rhyngwladol international

Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Ebost Email helo@s4c.co.uk / Gwefan Website s4c.co.uk
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 / Ffacs Fax +44(0)29 2075 4444

Gwahoddiad am geisiadau i greu a gwerthu marsiandïaeth

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Tachwedd 2009

Dyddiad ac amser cau ar gyfer mynegi diddordeb: 17:00 ar 27 Tachwedd 2009

Dyddiad ac amser cau ar gyfer derbyn ceisiadau: 17:00 ar 7 Rhagfyr 2009

1. **Cyflwyniad**

Yn dilyn Deddf Gyfathrebu 2003, newidiwyd y berthynas rhwng S4C a'i chyflenwyr rhaglenni. O ganlyniad, y cynhyrchwyr annibynnol sydd nawr fel arfer yn berchen ar yr eiddo deallusol yn y cynnwys maent yn creu ar gyfer S4C ac maent yn cadw'r hawl i fanteisio ar yr eiddo hwnnw yn fasnachol. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, S4C sydd biau'r eiddo deallusol. Mae S4C hefyd yn berchen ar eiddo deallusol o'r cyfnod cyn y newidiadau a ddeilliodd o Ddeddf Gyfathrebu 2003.

Mae S4C wedi trwyddedu un o'i his-gwmnïau, S4C Rhyngwladol Cyf ("S4C Rhyngwladol"), i ymarfer hawliau marsiandïaeth mewn cysylltiad â rhaglenni a chymeriadau sy'n perthyn i S4C. Mae S4C Rhyngwladol yn credu y gall cyfleoedd fodoli i greu incwm o ymarfer hawliau marsiandïaeth yn y Gymraeg yn y rhaglenni a chymeriadau hyn. Mae S4C Rhyngwladol am gynnig trwyddedau i eraill gynhyrchu a dosbarthu marsiandïaeth ac am wahodd cynigion gan rai sydd â diddordeb mewn gwneud hynny. Ni fydd S4C Rhyngwladol yn cyfrannu at gost cynhyrchu a dosbarthu marsiandïaeth.

2. **Y Gwahoddiad**

Mae S4C Rhyngwladol yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau i ymarfer Hawliau Marsiandïaeth yn y Rhaglenni a Chymeriadau.

Yr **Hawliau Marsiandïaeth** yw'r hawliau i gynhyrchu, cyhoeddi a dosbarthu llyfrau a deunydd cyhoeddi arall; tapiau, cryno-ddisgiau, fideos, DVDs a nwyddau sain a chlyweledol eraill; teganau, dillad a chynnyrch a marsiandïaeth eraill, yn seiliedig ar y Rhaglenni a Chymeriadau. Yn achos llyfrau a deunydd cyhoeddi arall a nwyddau sain a chlyweledol, dim ond hawliau i gynhyrchu, cyhoeddi a dosbarthu fersiynau yn y Gymraeg sy'n cael eu cynnig. Yn achos **Sam Tân**, dim ond hawliau i gynhyrchu a dosbarthu DVDs (yn Gymraeg) a gynigir.

Y **Rhaglenni a Chymeriadau** yw:

- **Cyw** (gan gynnwys Cyw, Plwmp, Deryn, Llew, Bolgi a Jangl). Cynigir hawliau i'r cymeriadau, caneuon a chynnwys dolenni yn unig, ond nid i ddeunydd arall yn ymwneud â rhaglenni sy'n seiliedig ar gymeriadau **Cyw.** Er enghraifft, ni chynigir hawliau i greu deunydd yn seiliedig ar **abc.**
- **Sam Tân** (Cyfres 6 a ddarlledwyd yn 2008/09 ac a gynhyrchwyd gan HIT Entertainment). Cynigir hawliau i gynhyrchu a dosbarthu DVDs (yn Gymraeg) yn unig.

Gall ymgeiswyr gyflwyno cynigion ar gyfer ymarfer ar yr Hawliau Marsiandïaeth yn y Rhaglenni a'r Cymeriadau i gyd neu rai yn unig. Gall ymgeiswyr hefyd gynnig cynigion ar gyfer ymarfer ar rai elfennau'n unig o'r Hawliau Marsiandïaeth (e.e. i gynhyrchu DVDs yn unig).

Gan fod S4C Rhyngwladol yn dymuno trwyddedu'r ymgeisydd neu'r ymgeiswyr gorau ar gyfer dosbarthu'r ystod mwyaf eang o ddeunydd marsiandïaeth posib, mae'n bosib y bydd S4C Rhyngwladol yn penderfynu cytundebi â mwy nag un ymgeisydd yn ôl y gwahanol gategorïau o ddeunydd marsiandïaeth.

Os yw ymgeisydd yn bwriadu darparu cynigion ar gyfer mwy nag un categori o ddeunydd marsiandïaeth mae gofyn i'r ymgeisydd nodi a fyddai'n barod i dderbyn trwydded am rai o'r categorïau hynny yn unig. Noder, os yw ymgeisydd yn nodi na fyddai yn barod i dderbyn trwydded am rai o'r categorïau yn unig, yna mae'n bosib y penderfyna S4C Rhyngwladol i beidio â dyfarnu trwydded am unrhyw gategori i'r ymgeisydd hynny.

3. Ffurflen Gais a Chynllun Busnes

Disgwylir i bob ymgeisydd gwblhau a dychwelyd ffurflen gais a chynllun busnes yn y ffurf sy'n ymddangos yn yr atodiad i'r gwahoddiad hwn (yr 'Atodiad'). Er mwyn galluogi S4C Rhyngwladol i gymharu ceisiadau, gofynnir i ymgeiswyr gwblhau cynllun busnes ar wahân ar gyfer pob categori o ddeunydd marsiandïaeth. Er enghraifft, os yw'r ymgeisydd am werthu llyfrau, teganau a DVDs, bydd gofyn iddo gwblhau tri chynllun busnes.

4. Amodau

Bydd disgwyl i unrhyw ymgeisydd llwyddiannus arwyddo cytundeb trwydded gydag S4C Rhyngwladol. Bydd amodau'r cytundeb trwydded yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) yr amodau canlynol:

- Bydd y cytundeb am gyfnod o ddwy flynedd.
- Bydd yr hawliau a drwyddedir yn ddarostyngedig i hawliau trydydd partïon a ddatgelir gan S4C Rhyngwladol ac i hawl S4C i werthu ei hen stoc o farsiandïaeth a ddatgelir gan S4C Rhyngwladol, ond fel arall byddant yn hawliau ecscliwsif a byd-eang.
- Bydd cynnyrch yn cael ei gynhyrchu a'i werthu o dan frand yr ymgeisydd llwyddiannus ond gan roi credyd i S4C ac arddangos logo S4C.
- Bydd yr ymgeisydd yn cydymffurfio â Chanllawiau Brand S4C ac (i'r graddau y bydd cynnyrch yn ymwneud ag unrhyw elfen o wasanaeth **Cyw**) â Chanllawiau Brand **Cyw**.

- Bydd rhaid cael cymeradwyaeth S4C Rhyngwladol i unrhyw gynnyrch (i natur y cynnyrch yn ogystal â'i ffurf a chynnwys) cyn ei gyhoeddi a dosbarthu a bydd disgwyl i gynnyrch fod o safon uchel.
- Bydd disgwyl i gynnyrch gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a chyda pholisïau a chanllawiau perthnasol S4C, sydd ar gael ar wefan S4C.
- Yr ymgeisydd llwyddiannus fydd yn gyfrifol am sicrhau unrhyw dystysgrif sydd ei angen gan y BBFC (*British Board of Film Classification*) a sicrhau bod unrhyw dystysgrif, rhybudd, gwybodaeth neu gyngor gofynnol yn ymddangos ar gynnyrch perthnasol.
- Bydd disgwyl i'r ymgeisydd drefnu yswiriant priodol, boed hynny'n yswiriant namau a hepgoriadau ("*errors and omissions*") neu atebolrwydd cynnyrch ("*product liability*") yn ôl natur y cynnyrch.
- Bydd yr ymgeisydd yn talu ffi trwydded a/neu gyfran o'r incwm net o ymarfer yr Hawliau Marsiandïaeth i S4C Rhyngwladol yn unol â'r hyn a gytunir yn y cytundeb.
- Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau a thalu am unrhyw gliriadau hawliau a thrwyddedau cerddoriaeth sydd eu hangen i gynhyrchu, cyhoeddi, dosbarthu a gwerthu'r cynnyrch.
- Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am ddosbarthu'r incwm yn deillio o'r cynnyrch i'r sawl sydd â'r hawliau i gyfranogi ynddo, gan gynnwys y ffi trwydded a/neu gyfran o incwm i S4C Rhyngwladol a thaliadau i gyfranwyr.
- Bydd hawl gan S4C Rhyngwladol neu S4C ofyn am dderbyn stoc o'r cynnyrch gan yr ymgeisydd yn ôl eu galw rhesymol, a bydd hawl gan S4C Rhyngwladol neu S4C gymryd comisiwn ar unrhyw werthiannau o'r stoc ganddynt, yn unol â'r lefel o gomisiwn a gytunir yn y cytundeb.
- Bydd hawl gan S4C Rhyngwladol derfynu'r cytundeb os na fydd yr ymgeisydd yn cyrraedd y targedau a gytunir yn y cytundeb.
- Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am yr holl gostau o ddylunio, cynhyrchu, cyhoeddi, dosbarthu a gwerthu'r cynnyrch. Ni fydd S4C Rhyngwladol yn cyfrannu at y costau hyn.
- Ni fydd S4C Rhyngwladol yn rhoi unrhyw warant yngl□ â photensial masnachol y Rhaglenni a Chymeriadau. Disgwylir i ymgeiswyr fodloni eu hunain am hyn.

5. Ceisiadau

5.1 Mynegi Bwriad i Ymgeisio

Os ydych am gyflwyno cais yn dilyn o'r Gwahoddiad hwn, bydd angen ichi gadarnhau eich bwriad i wneud hynny erbyn 17:00 ar 27 Tachwedd, 2009, gan nodi y categori(au) o ddeunydd marsiandïaeth y bwriadwch ymgeisio amdano. Dylid anfon e-bost gyda'r cadarnhad a manylion hyn erbyn yr amser a nodwyd uchod at:
E-bost: panel@s4c.co.uk

Os na dderbynnir y cadarnhad a'r manylion hyn erbyn yr amser a nodwyd uchod, bydd gan S4C Rhyngwladol yr hawl i ddiystyru eich cais. Bydd hawl hefyd gan S4C Rhyngwladol i ddiystyru unrhyw gais am gategori(au) o ddeunydd marsiandïaeth nas chyfeiriwyd ato yn y cadarnhad o fwriad i ymgeisio.

5.2 Cyflwyno Ceisiadau

Gofynnir i chi gyflwyno ffurflen gais a chynllun busnes yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â gofynion yr Atodiad, ar ffurf electronig, erbyn 17:00 ar 7 Rhagfyr 2009.

Dylid nodi Cais Marsiandïaeth yn glir yn nheitl yr e-bost, a'i e-bostio erbyn y dyddiad cau a nodir uchod at:
E-bost: panel@s4c.co.uk

Ni fydd S4C Rhyngwladol yn gyfrifol am unrhyw ddiffygion yn y system ddosbarthu neu am unrhyw geisiadau a fydd yn mynd ar goll, a fydd yn cael eu hoedi neu a fydd yn ddiffygiol. Chi sydd yn gyfrifol am sicrhau bod eich ceisiadau (ac unrhyw atodiadau) yn cael eu paratoi mewn da bryd (gan ystyried y posibilrwydd y bydd staff yn absennol neu y gallai methiannau technegol godi) a'u bod yn cael eu cyflwyno cyn y dyddiad cau a nodir uchod.

Sylwer mai 20Mb yw'r uchafswm o ran maint negeseuon e-bost y gall S4C Rhyngwladol eu derbyn ac mai'r ffurfiau a ganiateir ar gyfer ffeiliau yw Word, Excel, PDF a Jpeg. Mae'r ffurfiau hyn yn dderbyniol fel Ffeiliau Zip. Dylech fod yn ymwybodol y gallai eich ISP (Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd) bennu cyfyngiadau is o ran maint negeseuon e-bost ac felly, fe'ch cynghorir i holi eich ISP neu eich adran TG ynghylch unrhyw gyfyngiadau ar faint negeseuon ymhell cyn y dyddiad cau.

Ni fernir bod prawf o anfon deunydd yn cyfateb â phrawf bod deunydd wedi cyrraedd, ac fe'ch cynghorir i geisio cydnabyddiaeth ar ffurf neges e-bost ar wahân bod y deunydd wedi cyrraedd.

5.3 **Ystyried Ceisiadau**

Byddwn yn ystyried yr holl geisiadau a ddaw i law S4C Rhyngwladol yn unol â'r gofynion a nodir yn y Gwahoddiad hwn a'r holl wybodaeth ychwanegol a roddir os gofynnir amdano gan S4C Rhyngwladol. Caiff trwydded(au) eu dyfarnu yn seiliedig ar asesiad S4C Rhyngwladol o'r cynigion sy'n cynnig y gwerth cyffredinol gorau yn unol â'r meini prawf a nodir yn Rhan 5.8 isod.

5.4 **Egluro'r Ceisiadau**

Efallai y bydd S4C Rhyngwladol yn gofyn i chi roi rhagor o wybodaeth a/neu egluro unrhyw faterion a gynhwysir yn y cais.

5.5 **Cyfweliadau**

Nid yw hi'n fwriad i gynnal cyfweliadau, ond ceidw S4C Rhyngwladol yr hawl i drafod gydag unrhyw ymgeisydd lle bo angen gwybodaeth neu eglurhad pellach.

5.6 **Hysbysu Canlyniadau'r Gwerthusiad**

Caiff pawb a gyflwynodd gais wybod am ganlyniad ein gwerthusiad dros yr e-bost. Gweler 5.8.4 isod.

5.7 **Ceisiadau am Ragor o wybodaeth**

Os bydd angen cysylltu ag S4C Rhyngwladol ynghylch y broses hon gan gynnwys unrhyw geisiadau am ragor o wybodaeth a/neu ganllawiau ar gwblhau cais neu gynllun busnes dylid anfon neges e-bost at: panel@s4c.co.uk

Ni ddylech mewn unrhyw ffordd geisio gwybodaeth am y broses hon gan unrhyw swyddog, cyflogai, asiant na chynghorydd S4C Rhyngwladol neu S4C.

Fe'ch anogir i ofyn am unrhyw wybodaeth bellach a/neu ganllawiau a allai fod yn angenrheidiol mewn perthynas â'r broses hon cyn gynted â phosibl.

Er tegwch a thryloywder noder y caiff pob cais am ragor o wybodaeth a/neu ganllawiau o ran y broses hon ac ymatebion S4C Rhyngwladol i geisiadau o'r fath eu datgelu i bawb sy'n ymgeisio. Cyhoeddir datgeliadau o'r fath ar wefan S4C yn http://www.s4c.co.uk/tendrau ac fe'ch cynghorir i weld a ddatgelwyd unrhyw ymatebion o'r fath cyn cwblhau eich cais.

Os byddwch o'r farn bod unrhyw gais am ragor o wybodaeth a/neu ganllawiau a wneir gennych yn fasnachol sensitif, rhaid i chi nodi "masnachol sensitif" yn glir arno a rhoi'r rhesymau dros hynny. Fodd bynnag, noder mai S4C Rhyngwladol fydd yn penderfynu, yn ôl ei ddisgresiwn, a yw unrhyw gais o'r fath yn fasnachol sensitif. Os bydd S4C Rhyngwladol o'r farn bod cais yn fasnachol sensitif ni fydd yn datgelu'r cais na'i ymateb i geisiadau o'r fath i ymgeiswyr eraill. Os na fydd S4C Rhyngwladol o'r farn bod cais yn fasnachol sensitif bydd yn eich hysbysu. Os byddwch yn cytuno nad yw'r cais yn fasnachol sensitif bydd S4C Rhyngwladol yn ymateb i'r cais a bydd hawl ganddo i ddatgelu'r cais a'i ymateb i bawb sy'n ymgeisio. Os na fyddwch yn cytuno nad yw'r cais yn fasnachol sensitif neu os na fyddwch yn hysbysu S4C Rhyngwladol ynghylch a ydych yn cytuno ai peidio o fewn un diwrnod gwaith, ystyrir bod y cais am ragor o wybodaeth wedi'i dynnu'n ôl ac ni fydd S4C Rhyngwladol yn ymateb iddo. Ni fydd unrhyw beth yn y paragraff hwn yn cael ei ddehongli na'i ystyried fel petai'n cyfyngu ar allu S4C Rhyngwladol i ddatgelu unrhyw wybodaeth y mae'n rhaid iddo ei ddatgelu o dan gyfraith neu reoliadau perthnasol.

Bydd unrhyw geisiadau ac unrhyw ymatebion iddynt a ddatgelir i bawb sy'n ymgeisio yn ffurfio rhan o'r Gwahoddiad hwn.

5.8 **Meini Prawf Gwerthuso a Gwobrwyo Cytundeb**

5.8.1 **Sicrhau Cydymffurfiaeth**

Cyn dechrau gwerthuso ceisiadau yn ffurfiol, bydd S4C Rhyngwladol yn bwrw golwg drostynt i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Gwahoddiad hwn. Gellir gwrthod ceisiadau nad ydynt yn cydymffurfio. Caiff ceisiadau sy'n cydymffurfio'n llawn eu gwerthuso gan S4C Rhyngwladol yn unol â'r darpariaethau a nodir ym mhwynt 5.8.2.

5.8.2 **Gwerthuso**

Caiff unrhyw drwydded(au) eu dyfarnu yn seiliedig ar y gwerth cyffredinol gorau a gynigir i S4C Rhyngwladol, er mwyn ceisio sicrhau bod trwyddedau'n cael eu rhoi ar gyfer ystod mor eang â phosib o gategorïau o ddeunydd marsiandïaeth a Rhaglenni a Chymeriadau ac er mwyn sicrhau bod y deunydd marsiandïaeth yn cyrraedd marchnad mor eang â phosibl. Er mwyn asesu'r cynigion, bydd panel o gynrychiolwyr S4C Rhyngwladol yn gwerthuso ac yn cymharu'r cynlluniau busnes yn ôl y categori o ddeunydd marsiandïaeth. Caiff y cynlluniau busnes eu sgorio yn unol â meini prawf a phwysoliadau (i) i (vi) isod.

Wedi i feini prawf (i) i (vi) isod gael eu gwerthuso, bydd S4C Rhyngwladol yn ystyried a fyddai trwyddedi mwy nag un categori o ddeunydd marsiandïaeth i unrhyw ymgeisydd yn cynnig y gwerth cyffredinol gorau i S4C Rhyngwladol. Wrth ystyried gwerth cyffredinol gorau i S4C Rhyngwladol mae'n bosib na fydd S4C Rhyngwladol yn rhoi trwyddedau i'r rheini sydd wedi sgorio uchaf ym mhob (neu unrhyw un) categori o ddeunydd marsiandïaeth.

	Meini Prawf	**Pwysoliadau**
(i)	Trosiant y disgwylir ei gyflawni ar gyfer y categori o ddeunydd marsiandïaeth.	**15**
(ii)	Gallu'r ymgeisydd i ddylunio, cynhyrchu, cyhoeddi, dosbarthu a gwerthu'r categori o ddeunydd marsiandïaeth dros ystod y cytundeb (gan gynnwys ystyriaeth o seiliau ariannol cadarn yr ymgeisydd, trefniadau yswiriant yr ymgeisydd, trefniadau dosbarthu, amser arwain i mewn cyn y bydd y deunydd ar gael i'r cyhoedd).	**15**
(iii)	Profiad o ddylunio, cynhyrchu, cyhoeddi, dosbarthu a gwerthu'r categori o ddeunydd marsiandïaeth , gan gynnwys cael tystysgrifau BBFC lle'n berthnasol.	**15**
(iv)	Yr unigolion allweddol yn y cais ar gyfer y categori o ddeunydd marsiandïaeth.	**10**
(v)	Y cyfran o incwm net a/neu ffi trwydded i S4C Rhyngwladol a'r trefniadau talu ar gyfer y categori o ddeunydd marsiandïaeth.	**15**
(vi)	Comisiwn os bydd S4C Rhyngwladol/S4C yn gwerthu ar gyfer y categori o ddeunydd marsiandïaeth.	**5**

5.8.3 **Anghymhwyso Ceisiadau/Ymgeiswyr**

Rydym yn cadw'r hawl i anghymhwyso cais neu ymgeisydd o'r broses hon ar unrhyw adeg os yw'r canlynol yn gymwys:

(a) nid yw cais yn cydymffurfio â gofynion y Gwahoddiad hwn mewn unrhyw ffordd;

(b) mae unrhyw wybodaeth a roddwyd i ni yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd neu nid yw'n gywir mwyach; neu

(c) mae'r ymgeisydd wedi cydgynllwynio â rhywun arall (ac eithrio, pan fo'r ymgeisydd yn rhan o gonsortiwm, gydgynllwynio rhwng aelodau'r consortiwm mewn perthynas â'i gais) o ran ei gais ef neu unrhyw gais arall.

Ni fydd anghymhwyso cais neu ymgeisydd yn effeithio ar hawliau na rhwymediau eraill S4C Rhyngwladol.

5.8.4 **Dyfarnu Trwydded(au)**

Ar ôl cwblhau'r gwaith o werthuso ceisiadau, bydd S4C Rhyngwladol yn hysbysu ymgeiswyr o ganlyniadau'r gwaith gwerthuso. Bydd gan ymgeiswyr yr hawl i ofyn am adborth yn ôl yr angen. Bydd gofyn i'r ymgeiswyr y bu eu hymateb yn llwyddiannus i ymrwymo i gytundeb gydag S4C Rhyngwladol ar ffurf trwydded. Ni fydd unrhyw gytundeb yn cael ei ffurfio oni bai a nes bod S4C Rhyngwladol yn arwyddo'r cytundeb trwydded. Ni fydd unrhyw dderbyniad llafar neu ysgrifenedig o unrhyw gais, neu hysbysiad bod ymgeisydd wedi bod yn llwyddiannus, yn gyfystyr â rhwymyn cytundeb.

6. Nodiadau Cyfreithiol

6.1 Ymwadiad

Nid yw S4C Rhyngwladol yn cynnig unrhyw warant neu gyflwyniad ynghylch cyflawnder neu gywirdeb unrhyw wybodaeth yn y Gwahoddiad hwn ac mae unrhyw ddibyniaeth ar wybodaeth o'r fath ar eich risg eich hunain.

6.2 Dim ymrwymiad i gynnig trwydded

Ni fydd unrhyw beth yn y Gwahoddiad hwn neu unrhyw gyfathrebu rhwng S4C Rhyngwladol a'r ymgeisydd ynghylch y broses ymgeisio neu'r cais yn gyfystyr â chontract i ddarparu unrhyw wasanaeth y rhoddir sylw iddo yn y broses ymgeisio, neu warant neu gyflwyniad y bydd unrhyw gontract yn cael ei ddyfarnu neu y gallai unrhyw gontract gael ei ddyfarnu.

Mae S4C Rhyngwladol yn cadw'r hawl i dynnu yn ôl o a/neu adael a/neu ohirio'r broses hon ar unrhyw adeg, i beidio dyfarnu unrhyw gontract o ganlyniad i'r broses hon, i ychwanegu at, diwygio a/neu egluro amodau a thelerau'r Gwahoddiad hwn a/neu i fynnu bod ymgeiswyr yn esbonio eu ceisiadau a/neu yn darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag ef.

6.3 Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Rhaid i bob ymgeisydd ddarparu manylion os rhagwelir y gallai fod gwrthdaro rhwng buddiannau unigolion sy'n ymwneud â'r cais a staff S4C neu swyddogion S4C Rhyngwladol. Mae hyn er mwyn galluogi S4C Rhyngwladol i sicrhau ei fod yn neilltuo staff i'r broses hon nad oes ganddynt unrhyw berthynas bersonol gydag unrhyw ymgeisydd neu aelod o gonsortiwm.

6.4 **Rhyddid Gwybodaeth**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ("RhG") 2000 yn weithredol i S4C ond nid i S4C Rhyngwladol. Os bydd S4C yn meddu ar wybodaeth oddi wrth neu'n ymwneud â S4C Rhyngwladol, yna mae'r Ddeddf RhG yn berthnasol i'r wybodaeth honno. Os bydd unrhyw ymgeisydd o'r farn bod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddo i S4C Rhyngwladol yn sgìl y Gwahoddiad hwn, o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol, dylai'r ymgeisydd nodi hynny yn benodol gan nodi'r rhesymau dros ystyried y fath wybodaeth yn wybodaeth gyfrinachol neu sensitif. Os yn berthnasol, bydd S4C Rhyngwladol a/neu S4C yn ystyried hyn wrth benderfynu a fydd yn rhyddhau'r wybodaeth wrth ymateb i geisiadau RhG. Fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr dderbyn y bydd S4C Rhyngwladol a/neu S4C yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath os bydd yn cael cyngor cyfreithiol bod yn rhaid iddo wneud hynny er mwyn cydymffurfio gyda Deddf RhG. Mae S4C Rhyngwladol a/neu S4C yn cadw'r hawl i benderfynu yn ei ddisgresiwn llwyr os yw unrhyw wybodaeth arbennig wedi ei eithrio rhag ei ddadlenni.

6.5 **Diogelu Data**

Trwy gyflwyno cais, mae ymgeiswyr yn awdurdodi S4C Rhyngwladol ac S4C i brosesu'r holl wybodaeth bersonol a ddarparwyd fel rhan o'u cais yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac maent yn cadarnhau eu bod wedi sicrhau'r holl ganiatâd trydydd parti angenrheidiol er mwyn galluogi S4C Rhyngwladol ac S4C i wneud hynny.

6.6 **Cyfrinachedd**

Trwy gyflwyno cais, mae'r ymgeisydd yn cytuno cadw yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu a fydd ar gael i'r ymgeiswyr gan S4C Rhyngwladol mewn unrhyw gyfrwng yn ystod neu mewn cysylltiad â'r broses hon. Cytuna ymgeiswyr i beidio defnyddio gwybodaeth o'r fath at unrhyw ddiben ac eithrio'r diben o baratoi cais, ac i beidio datgelu gwybodaeth o'r fath i unrhyw unigolyn arall ac eithrio mewn ffordd gyfrinachol ac ar sail yr angen i'w gwybod, i'r unigolion hynny sy'n ymwneud â'r gwaith o baratoi'r cais yn uniongyrchol. Ni fydd yr oblygiadau cyfrinachedd yn berthnasol i wybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus ar yr adeg y caiff ei datgelu.

6.7 **Goblygiadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("TUPE")**

Nid yw S4C Rhyngwladol yn disgwyl i unrhyw rai o weithwyr S4C, S4C Rhyngwladol neu ddarparwr arall i fod yn destun unrhyw drosglwyddiad TUPE mewn cysylltiad â rhoi trwydded(au) o ganlyniad i'r broses hon.

6.8 **Costau'r Cais**

Mae pob ymgeisydd yn gyfrifol am y costau a'r treuliau sydd yn daladwy mewn cysylltiad â'r broses hon. Ni fydd S4C Rhyngwladol o dan unrhyw amod yn cyfrannu tuag at y fath gostau a threuliau.

6.9 **Diwygiadau i'r Gwahoddiad**

Mae S4C Rhyngwladol yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i'r Gwahoddiad hwn ac unrhyw ddogfen arall sy'n ffurfio rhan o'r Gwahoddiad hwn cyn y dyddiad cau a nodir yn 5.1 uchod. Er mwyn galluogi ystyriaeth ar gyfer diwygiad o'r fath, gall S4C Rhyngwladol, yn unol â'i ddisgresiwn, ymestyn y dyddiad a nodir yn 5.1 uchod.

6.10 **Hawlfraint**

Mae S4C Rhyngwladol yn berchen ar yr hawlfraint yn y Gwahoddiad hwn ac unrhyw ddeunyddiau eraill a gyhoeddir neu a ddarparir gan S4C Rhyngwladol. Ni chaniateir i ymgeiswyr gopïo, atgynhyrchu, defnyddio neu gyhoeddi copïau o'r Gwahoddiad neu ddeunyddiau o'r fath (neu unrhyw ran ohonynt) ac eithrio yn unol â'r graddau sy'n ofynnol er mwyn paratoi a chyflwyno'u hymatebion.

6.11 **Dim cyd-gynllunio**

Drwy anfon cais mewn ymateb i'r Gwahoddiad hwn, mae pob ymgeisydd yn cadarnhau:

1. bod y cais yn "bona fide" ac yn gystadleuol;

2. nad yw'r ymgeisydd wedi gosod neu newid y cais yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson arall (heblaw yng nghyswllt consortiwm, gydag aelodau eraill y consortiwm) nac wedi gofyn i unrhyw ymgeisydd arall i wneud yr un peth; ac

3. nad yw'r ymgeisydd wedi trafod neu ymgynghori ag unrhyw berson arall heblaw am S4C Rhyngwladol yngl□n â swm neu fras gyllideb neu delerau ariannol ei ymateb, heblaw lle'r oedd y fath drafod neu ymgynghori yn gyfrinachol ac yn angenrheidiol er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch premiwm yswiriant neu ddyfynbris ar gyfer paratoi'r ymateb i'r Gwahoddiad hwn.

6.12 **Cyfraith Lywodraethol**

Llywodraethir y Gwahoddiad hwn gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae pob ymgeisydd yn cytuno, trwy ddychwelyd cais, i ymrwymo i awdurdodaeth llwyr-gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.

ATODIAD

FFURFLEN GAIS I S4C RHYNGWLADOL CYF AR GYFER CREU A GWERTHU MARSIANDÏAETH

RHAN 1: MANYLION YR YMGEISYDD

Enw'r Ymgeisydd:	
Cyfeiriad:	
Enw'r person cyswllt:	
Manylion cyswllt: E-bost: Ffôn: Ffacs:	
Sawl cynllun busnes sy'n amgaeedig ac am ba gategori(au) o ddeunydd marsiandïaeth y mae(nt) yn berthnasol:	Llyfrau ☐ Tapiau/CD ☐ Fideo/DVD ☐ Dillad ☐ Teganau ☐ Arall (Nodwch fanylion) ☐ .....
Os ydych yn cynnig cynlluniau busnes ar gyfer mwy nag un categori o ddeunydd marsiandïaeth, nodwch a ydych yn barod i dderbyn trwydded ar gyfer rhai categorïau a gynigwyd yn unig:	Ydym ☐ Nac ydym ☐ Nodwch unrhyw sylwadau perthnasol: .....
Cyfrifon yr ymgeisydd am y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf (i'w hatodi). Os yw'r cyfrifon wedi eu harchwilio, anfonwch y rhai sydd wedi eu harchwilio.	

RHAN 2: CYNLLUN BUSNES

Noder:

(1) Disgwylir i'r ymgeisydd gwblhau cynllun busnes ar wahân ar gyfer pob categori o ddeunydd marsiandïaeth gwahanol.

(2) Os nad oes digon o le isod, gellir ychwanegu tudalennau pellach.

Categori o ddeunydd marsiandïaeth:	
Cymeriadau a Rhaglenni:	
Sut ac ymhle bydd y categori o ddeunydd marsiandïaeth yn cael ei ddosbarthu, gan gynnwys manylion siopau a gwefannau:	
Y trosiant a ragwelir o'r categori o ddeunydd marsiandïaeth am y ddwy flynedd nesaf, gan nodi faint o unedau y disgwylir eu gwerthu a phris pob uned:	
Sut fydd yr ymgeisydd yn talu S4C Rhyngwladol am ddefnyddio'r Hawliau Marsiandïaeth ar gyfer y categori o ddeunydd marsiandïaeth, e.e. ffi trwydded a/neu cyfran o'r incwm net:	
Pa gyfradd ffi trwydded a/neu cyfran o'r incwm net fydd yr ymgeisydd yn talu i S4C Rhyngwladol ar gyfer y categori o ddeunydd marsiandïaeth:	
Pa mor aml fyddai'r ymgeisydd yn cyfrifo i S4C am y taliad:	

Nodwch fanylion llawn o sut y cyfrifir y taliad i S4C Rhyngwladol ar gyfer y categori o ddeunydd marsiandïaeth. Er enghraifft: (a) pa eitemau sydd i'w tynnu o'r incwm gros er mwyn cyfrifo incwm net; a (b) beth fydd yr uchafswm i'w dynnu am yr eitemau hyn (gellir ei nodi fel canran o'r incwm gros os dymunir).	
Pryd fyddai'r ymgeisydd yn cychwyn gwneud taliadau i S4C Rhyngwladol ar gyfer y categori o ddeunydd marsiandïaeth, gan nodi unrhyw drothwy i gychwyn talu:	
Costau disgwyliedig yr ymgeisydd ar gyfer dylunio, cynhyrchu, cyhoeddi, dosbarthu a gwerthu'r categori o ddeunydd marsiandïaeth, gan ddangos manylion llawn o'r costau hyn:	
Manylion o drefniadau'r ymgeisydd gyda thrydydd partïon am wasanaethau neu nwyddau i fedru dylunio, cynhyrchu, cyhoeddi, dosbarthu a gwerthu'r categori o ddeunydd marsiandïaeth:	
Profiad yr ymgeisydd o ddylunio, cynhyrchu, cyhoeddi, dosbarthu a gwerthu'r categori o ddeunydd marsiandïaeth:	
Yr unigolion allweddol fydd yn ymwneud â'r categori o'r deunydd marsiandïaeth a'u profiad perthnasol:	
Manylion yswiriant ar gyfer y categori o'r deunydd marsiandïaeth:	

Profiad o gael tystysgrifau BBFC ar gyfer deunydd, lle'n berthnasol:	
Pa gomisiwn neu delerau eraill a gynigir i S4C Rhyngwladol/S4C os bydd S4C Rhyngwladol neu S4C yn gwerthu'r categori o'r deunydd marsiandïaeth ar ran yr ymgeisydd:	
Faint o amser ar ôl gwobrwyo trwydded fyddai angen ar yr ymgeisydd cyn bod y categori o'r deunydd marsiandïaeth ar gael i'r cyhoedd:	